Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phenderfyniadau a'r camau y mae'n eu cymryd yn ystyried barn pobl Cymru.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ffynhonnell allweddol o ran gwybod beth yw barn pobl ar nifer o faterion sy'n effeithio arnynt a'u hardaloedd lleol. Dim ond trwy holi pobl yn uniongyrchol y gellir cael yr wybodaeth hon, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i'w chymharu ar lefel awdurdodau lleol ledled Gymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i wneud Cymru yn lle gwell i fyw. Bydd y canlyniadau yn ein galluogi i:

- wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n adlewyrchu sylwadau ac amgylchiadau pobl;
- monitro newidiadau dros gyfnod o amser i weld beth yw effaith y camau a gymerir gennym;
- nodi arferion da y gellid eu rhoi ar waith yn ehangach;
- dod o hyd i'r ardaloedd a fyddai'n elwa o gael cymorth dwys yn lleol. Trwy wneud hynny, gallwn dargedu mentrau yn yr ardaloedd hynny yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys amrywiaeth o bynciau:

- gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth;
- yr ardal leol a diogelwch;
- lles.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl cynrychiadol o bobl 16 oed a hŷn o bob rhan o Gymru, ac mae ar waith trwy'r flwyddyn gron.

Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr at bobl yn gofyn iddynt gymryd rhan. Er mwyn cynnal yr ymchwil, bydd rhywun yn galw yn eu cartref i gynnal cyfweliad byr a bydd yn dewis un person ar hap sy'n byw yno i gymryd rhan yn y cyfweliad hwnnw. Gofynnir nifer o gwestiynau ynglŷn ag ansawdd bywyd a hefyd gofynnir am eu sylwadau ar wasanaethau cyhoeddus lleol fel iechyd, trafnidiaeth gyhoeddus ac ysgolion.

Os bydd cyfwelydd yn galw ar adeg anghyfleus, gall drefnu i alw'n ôl rhywbryd arall.

Cynhelir cyfweliadau'r arolwg gan ddau gwmni sy'n arbenigo mewn ymchwil: TNS-BMRB a Beaufort Research Ltd. Mae pob cyfwelydd TNS-BMRB a Beaufort yn cario Cerdyn Adnabod. Ni ddylech adael i neb ddod i mewn i'ch cartref heb eu bod yn dangos y cerdyn hwn ichi.

Cyhoeddir y canlyniadau'n flynyddol o ddiwedd haf 2012.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru: webpage.

I gysylltu â'r tîm sy'n rhedeg yr Arolwg Cenedlaethol yn Llywodraeth Cymru, e-bostiwch: surveys@wales.gsi.gov.uk <mailto:surveys@wales.gsi.gov.uk>.